



 TV LICENSING

TRWYDDEDU TELEDU

Canllaw i'r newidiadau i'r Drwydded Deledu dros 75

Gwybodaeth i'ch helpu
i egluro'r newidiadau
o'r 1af Awst 2020.

Cynnwys

Rhagarweiniad	T3	Gwneud cais am gonsesiwn i bobl ddall	T14
Y trefniadau newydd ar gyfer Trwyddedau Teledu dros 75	T4	Pryd y mae angen Trwydded Deledu	T15
Beth sydd wedi digwydd hyd yn hyn?	T5	Cwestiynau cyffredin	T16
Beth sy’n digwydd nawr?	T6	Sut i gysylltu â ni	T18
Gwneud cais am Drwydded Deledu am ddim	T7		
Ffyrdd o dalu am Drwydded Deledu	T8		
Talu’r cyfan ar unwaith	T9		
Rhannu’r gost	T11		

Rhagarweiniad

Fe ddaeth Trwyddedau Teledu am ddim i bawb dros 75 yn y Deyrnas Unedig, wedi'u hariannu gan y Llywodraeth, i ben ar 31 Gorffennaf 2020.

O'r 1af Awst 2020, bydd unrhyw un 75 mlwydd oed neu drosodd sy ddim yn derbyn Credyd Pensiwn (budd-dal sydd ar gael i bensiynwyr ar incwm isel) yn gorfod talu am eu Trwydded Deledu.

Pwrpas y canllaw yma yw helpu cynghorwyr i egluro'r newidiadau i'r rhai oedd yn arfer dal Trwydded Deledu dros 75 am ddim cyn 31 Gorffennaf 2020.

Mae'n cynnwys yr holl wybodaeth fydd ei hangen arnoch pan fyddwch yn siarad â'ch cwsmeriaid, er mwyn gallu cyfleu'r newidiadau yn glir ac effeithiol.



Y trefniadau newydd ar gyfer Trwyddedau Teledu dros 75

Mae unrhyw un 75 mlwydd oed neu drosodd sy'n derbyn Credyd Pensiwn (budd-dal i bensiynwyr ar incwm isel)

yn gymwys i wneud cais am Drwydded Deledu am ddim. I fod yn gymwys i gael trwydded am ddim bydd angen iddyn nhw fod yn derbyn Credyd Pensiwn yn eu henw nhw, neu gall hyn fod yn enw eu partner os ydyn nhw'n gwpl ac yn byw yn yr un cyfeiriad.

Fe allen nhw fod yn gymwys i gael Credyd Pensiwn, hyd yn oed os oes ganddyn nhw bensiwn, cynilion neu'n berchen ar eu cartref eu hunain. Fe all eu gwneud yn gymwys i gael nifer o fudd-daliadau eraill hefyd, fel cymorth gyda chostau tai neu wresogi.

Bydd unrhyw un 75 mlwydd oed neu drosodd sy ddim yn derbyn Credyd Pensiwn yn gorfod talu am eu Trwydded Deledu.

Sut i weld a ydyn nhw'n gymwys i gael Credyd Pensiwn


Os yw cwsmeriaid yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, ewch i **www.gov.uk/credyd-pensiwn** neu ffoniwch yr Adran Gwaith a Phensiynau ar **0800 99 1234**.

Gall cwsmeriaid wneud hawliad ar lein hefyd yn **www.gov.uk/credyd-pensiwn/sut-i-wneud-cais**

Ni all Trwyddedu Teledu roi cyngor i gwsmeriaid ynghylch bod yn gymwys ar gyfer Credyd Pensiwn.

Beth sydd wedi digwydd hyd yn hyn?

Fe wnaethon ni ysgrifennu ddwywaith at holl ddeiliaid trwyddedau dros 75 yn 2020, gan wahodd y rhai oedd yn derbyn Credyd Pensiwn i wneud cais am drwydded am ddim. Anfonwyd llythyrau atgoffa pellach ym mis Chwefror a mis Ebrill 2021 at y rhai nad oeddem wedi clywed ganddynt eto i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r camau syml oedd angen eu cymryd i drefnu popeth.



Beth sy'n digwydd nawr?

Hyd yma, mae dros 9 o bob 10 cwsmer dros 75 wedi gwneud trefniadau ar gyfer eu Trwydded Deledu, boed hynny'n wneud cais am drwydded am ddim os ydynt yn derbyn Credyd Pensiwn, neu dalu am drwydded os oes angen gwneud hynny. Prynwyd dros 2.8 miliwn o drwyddedau a chawsom dros 780,000 o geisiadau am drwydded am ddim.

Rydym eisiau gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu'r rhai sydd heb wneud trefniadau eto i fod wedi'u trwyddedu'n gywir.

Ym mis Gorffennaf byddwn yn ysgrifennu at weddill y cwsmeriaid sydd heb wneud trefniadau eto.

Byddwn yn cadarnhau y bydd y cyfnod trawsnewid estynedig a roddwyd yn ei le oherwydd Covid-19 yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2021. Bydd y llythyr hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y camau syml i'w cymryd i drefnu popeth ac egluro bod cyngor a chefnogaeth ar gael petai ar bobl angen hynny.



Gwneud cais am Drwydded Deledu am ddim

I wneud cais am drwydded am ddim, bydd angen i gwsmeriaid ddarparu copi o **un dudalen** o ddogfen sy'n dangos eu bod nhw (neu eu partner) yn derbyn Credyd Pensiwn.

Does dim angen i Drwyddedu Teledu weld y gwir swm sy'n cael ei dderbyn, ond rhaid i'r ddogfen:

- **ddangos enw llawn deiliad y drwydded neu enw eu partner**
- **cynnwys cyfeiriad cartref deiliad y drwydded**
- **bod wedi'i dyddio o fewn y 12 mis diwethaf.**

Gallai hyn fod yn gopi o dudalen flaen llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau neu'r Gwasanaeth Pensiwn.

Sut i wneud cais

Trwy'r post:

Mae Trwyddedu Teledu wedi ysgrifennu at bob cwsmer dros 75, gyda ffurflen gais (**Ffurflen C – Cais am Drwydded Deledu am ddim**). Dylai deiliaid trwydded gwblhau'r ffurflen a'i dychwelyd at Drwyddedu Teledu, ynghyd â llungopi o'u tystiolaeth o Gredyd Pensiwn, yn yr amlen barod ragdaledig. Petai cwsmeriaid yn hoffi i ni ailanfon ffurflen gais, gallant wneud cais trwy ffonio **0300 790 6042*** i siarad â chynghorydd.

O gartref:

Os bydd cwsmeriaid yn methu gadael eu cartref, neu petai'n well ganddyn nhw beidio â gwneud hynny, gallant fynd i [tv.co.uk/75ymgeisio](https://www.tvl.co.uk/75ymgeisio) neu ffonio **0300 790 6042*** a chael gair â chynghorydd.

*Mae cynghorwyr ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8:30am a 6:30pm. Mae cost galwadau ar gyfradd leol y cwsmer.

Ffyrdd o dalu am Drwydded Deledu

Mae yna nifer o wahanol ffyrdd o dalu am Drwydded Deledu.

Os bydd deiliaid trwydded yn dewis talu'r cyfan ar unwaith, cost trwydded lliw yw £159.00. Petai'n well ganddynt rannu'r gost, yna gellir trefnu taliadau bob mis, bob pythefnos neu bob wythnos.

Mae Trwyddedu Teledu wedi ysgrifennu at bob cwsmer oedd â Thrwydded Deledu dros 75 am ddim ar 31 Gorffennaf 2020, i egluro'r dewis llawn o opsiynau talu. Mae'n bwysig fod cwsmeriaid yn dewis yr opsiwn sy'n gweithio orau iddyn nhw.



Os yw deiliad y drwydded yn ddall (â nam difrifol ar eu golwg)

Mae'n bosib y gallant wneud cais am gonsesiwn o 50%. Mae trwydded lliw gyda chonsesiwn i bobl ddall yn costio £79.50.

Dylech nodi, os yw cwsmer wedi rhoi gwybod i Drwyddedu Teledu yn y gorffennol eu bod wedi'u cofrestru'n ddall, a bod eu llythyr a ffurflenni yn dangos bod y consesiwn i bobl ddall wedi'i gymhwyso, does dim angen iddyn nhw ddarparu copïau o ddogfennau eto.

Mae mwy o wybodaeth i'w chael ar dudalen 14 y canllaw yma.

Talu'r cyfan ar unwaith

Os yw'n well gan ddeiliaid trwydded dalu am eu Trwydded Deledu mewn un taliad, gallant:

- drefnu Debyd Uniongyrchol blynyddol
- talu gyda cherdyn debyd neu gerdyn credyd
- talu trwy siec.

Gallant dalu mewn siop PayPoint hefyd ar ôl derbyn ffurflen 'Talu'r cyfan ar unwaith' yn y post.

*Mae cynghorwyr ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8:30am a 6:30pm. Mae cost galwadau ar gyfradd leol y cwsmer.

Debyd Uniongyrchol Blynyddol



Fe ddylen nhw un ai:

- gwblhau'r ffurflen ('**Ffurflen A – Talu'r cyfan ar unwaith**'), gan gynnwys y cyfarwyddyd Debyd Uniongyrchol ar y cefn, a'i hanfon yn ôl at Drwyddedu Teledu yn yr amlen barod ragdaledig,
- neu fewngofnodi yn tvl.co.uk/75talu gyda rhif eu trwydded, enw olaf a chôd post,
- neu ffonio'r gwasanaeth ffôn awtomataidd 24/7 ar **0300 790 6042***.

Unwaith y bydd eu Debyd Uniongyrchol wedi'i drefnu, byddwn yn anfon eu Trwydded Deledu newydd atynt. Ni fyddwn yn casglu unrhyw daliadau nes byddant wedi derbyn hon yn y post.

Cerdyn debyd neu gerdyn credyd

Fe ddylen nhw un ai:

- fewngofnodi yn tvl.co.uk/75talu gyda rhif eu trwydded, enw olaf a chôd post,
- neu ffonio'r gwasanaeth ffôn awtomataidd 24/7 ar **0300 790 6042***.

Talu'r cyfan ar unwaith (parhad)

Siec

Dylai cwsmeriaid ysgrifennu siec am £159.00 yn daladwy i 'Trwyddedu Teledu', ei llofnodi a'i dyddio cyn ei dychwelyd gyda'r ffurflen ('**Ffurflen A – Talu'r cyfan ar unwaith**') at Drwyddedu Teledu, gan ddefnyddio'r amlen barod ragdaledig.


Mewn PayPoint

Dylech nodi, ni all cwsmeriaid dalu fel hyn hyd nes byddant wedi derbyn y ffurflen ('Ffurflen A – Talu'r cyfan ar unwaith') yn y post.

I dalu fel hyn, dylai cwsmeriaid:

- Fynd â'r slip talu ar waelod y ffurflen 'Talu'r cyfan ar unwaith' i unrhyw siop PayPoint.
- Mae cefn Ffurflen A yn dangos eu lleoliadau PayPoint agosaf. Neu gallant ddod o hyd i'w safle agosaf yn **paypoint.com/locator**
- Gallant ddewis talu gydag arian parod neu gerdyn debyd.

Unwaith y byddant wedi talu, dylai deiliaid trwydded gadw'r slip PayPoint a'r dderbynneg i brofi eu bod wedi'u trwyddedu'n gywir.




Rhannu'r gost

Mae Trwyddedu Teledu wedi cyflwyno cynllun talu newydd, o'r enw Cynllun 75+, sydd wedi'i gynllunio'n arbennig i helpu pobl i symud o drwydded am ddim i drwydded y mae'n rhaid talu amdani. Y mae ar gael yn unig i bobl sy'n 75 mlwydd oed neu drosodd, ac oedd â Thrwydded Deledu am ddim o'r blaen.

Mae'r Cynllun 75+ yn gadael i'r cwsmer rannu cost eu trwydded (heb unrhyw dâl ychwanegol) gyda thaliadau bob mis, bob pythefnos neu bob wythnos.

Gall cwsmeriaid ddewis trefnu Debyd Uniongyrchol bob mis, neu wneud cais am gerdyn talu'r Cynllun 75+.

Ar ôl 31 Gorffennaf 2021, ni fydd cwsmeriaid yn gallu ymuno â'r Cynllun 75+ bellach. Ond, bydd unrhyw un sy'n cofrestru ar gyfer y Cynllun 75+ cyn diwedd Gorffennaf 2021 yn gallu parhau i rannu cost eu trwydded i'r flwyddyn nesaf. Bydd angen derbyn ceisiadau erbyn 28 Gorffennaf er mwyn gallu trefnu cynlluniau talu unrhyw ymunwyr newydd mewn da bryd.



Rhannu'r gost trwy Ddebyd Uniongyrchol Misol



Debyd Uniongyrchol Misol y Cynllun 75+

Fe ddylen nhw un ai:

- gwblhau'r ffurflen ('**Ffurflen B – Rhannu'r gost**'), gan gynnwys y cyfarwyddyd Debyd Uniongyrchol ar y cefn, a'i phostio'n ôl at Drwyddedu Teledu gan ddefnyddio'r amlen barod ragdaledig,
- mewngofnodi gyda rhif eu trwydded, enw olaf a chôd post yn **tvf.co.uk/75talv**
- neu ffonio'r gwasanaeth ffôn awtomataidd 24/7 ar **0300 790 6042***.

Unwaith y bydd eu Debyd Uniongyrchol wedi'i drefnu, byddwn yn anfon eu cynllun talu a'u Trwydded Deledu newydd atynt. Ni fyddwn yn casglu unrhyw daliadau nes byddant wedi derbyn y rhain yn y post.

*Mae cynghorwyr ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8:30am a 6:30pm. Mae cost galwadau ar gyfradd leol y cwsmer.

Rhannu'r gost gyda cherdyn talur Cynllun 75+

Your Payment Card 

Card holder

Licence number

Card number

75+
plan

*Mae cynghorwyr ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8:30am a 6:30pm. Mae cost galwadau ar gyfradd leol y cwsmer.

Cerdyn talur Cynllun 75+

Unwaith y bydd cwsmeriaid wedi derbyn cerdyn y Cynllun 75+, gallant ei ddefnyddio i dalu dros y ffôn, gyda cherdyn debyd neu gerdyn credyd. Neu gallant fynd â'r cerdyn i dalu mewn unrhyw safle PayPoint gydag arian parod neu gerdyn debyd.

Mae lleoliadau PayPoint cyfleus i'w cael yn paypoint.com/locator

Sut i archebu cerdyn talur Cynllun 75+

Fe ddylen nhw un ai:

- gwblhau'r ffurflen (**'Ffurflen B – Rhannu'r gost'**), gan nodi pa mor aml maen nhw eisiau talu (taliadau bob mis, bob pythefnos neu bob wythnos), a'i phostio'n ôl at Drwyddedu Teledu gan ddefnyddio'r amlen barod ragdaledig,
- neu fewngofnodi yn tvl.co.uk/75tal gyda rhif eu trwydded, enw olaf a chôd post,
- neu ffonio'r gwasanaeth ffôn awtomataidd 24/7 ar **0300 790 6042***.

Beth sy'n digwydd nesaf:

Byddwn yn anfon cerdyn talur Cynllun 75+, cynllun talu a Thrwydded Deledu at ddeiliaid trwydded yn y post. (Fydd eu taliad cyntaf ddim yn ddyledus nes byddant wedi derbyn y rhain.)

Gwneud cais am gonsesiwn i bobl ddall

Mae Trwydded Deledu gyda chonsesiwn i bobl ddall yn costio £79.50 (consesiwn o 50% ar ffi safonol trwydded lliw).

Dylech nodi

Os yw cwsmer wedi rhoi gwybod i Drwyddedu Teledu yn y gorffennol eu bod wedi'u cofrestru'n ddall, a bod eu llythyr a ffurflenni yn dangos bod y consesiwn i bobl ddall wedi'i gymhwyso, does dim angen iddyn nhw ddarparu copïau o ddogfennau eto.

- Bydd deiliaid trwydded yn derbyn ffurflen gais gan Drwyddedu Teledu yn y post, sy'n gadael iddyn nhw nodi'r ffordd yr hoffon nhw dalu am eu trwydded – un ai **'Talu'r cyfan ar unwaith'** (Ffurflen A) neu **'Rhannu'r gost'** (Ffurflen B).
- I wneud cais am gonsesiwn i bobl ddall, dylai deiliaid trwydded **roi croes yn y bocs ar Ffurflen A os ydyn nhw'n bwriadu talu'r cyfan ar unwaith, neu Ffurflen B os ydyn nhw eisiau rhannu'r gost.**
- Pan fyddan nhw'n dychwelyd y ffurflen, bydd angen iddyn nhw gynnwys llungopi o un o'r dogfennau canlynol:
 - CVI (Tystysgrif Nam ar y Golwg)
 - Tystysgrif BD8
 - Tystysgrif neu ddogfen gan Awdurdod Lleol sy'n dangos eu bod wedi'u cofrestru'n ddall (â nam difrifol ar eu golwg)
 - Tystysgrif gan Offthalmolegydd (llawfeddyg llygaid), sy'n datgan eu bod yn ddall (â nam difrifol ar eu golwg).

Ddylen nhw ddim anfon dogfennau gwreiddiol.


Dylai'r ffurflen wedi'i chwblhau a llungopi o'r ddogfen gael eu hanfon yn ôl at Drwyddedu Teledu gan ddefnyddio'r amlen barod ragdaledig. Dim ond drwy'r post y gellir gwneud cais am gonsesiwn i bobl ddall.

Pryd y mae angen Trwydded Deledu

Mae arnoch angen Trwydded Deledu i wneud unrhyw rai o'r canlynol: gwyllo neu recordio rhaglenni teledu'n fyw ar unrhyw sianel; ffrydio rhaglenni'n fyw trwy wasanaeth teledu ar lein; lawrlwytho neu wyllo rhaglenni'r BBC ar BBC iPlayer.

Gall hyn fod ar unrhyw ddyfais, gan gynnwys setiau teledu, cyfrifiaduron, gliniaduron, ffonau symudol, tabledi, consolau gemau, bocsys digisol a pheiriannau recordio DVD/VHS.

Cewch wybod mwy yn [tv1.co.uk/gwirio](https://www.tvl.co.uk/gwirio) (yn Saesneg)



Cwestiynau cyffredin

Rydym wedi cynnwys ambell ateb i gwestiynau gan eich cwsmeriaid am y newidiadau:

© Os mai'r cwsmer yw deiliad y Drwydded Deledu, a'u cartref yn derbyn Credyd Pensiwn ond yn enw eu partner. A oes angen iddyn nhw drosglwyddo'r Drwydded Deledu iddyn nhw?

Nac oes, os ydyn nhw'n gwpl sy'n byw yn yr un cyfeiriad, fe all eu tystiolaeth o Gredyd Pensiwn fod un ai yn enw deiliad y drwydded neu yn enw eu partner.

© A oes angen i'r cwsmer fod yn derbyn Credyd Gwarant A HEFYD Gredyd Cynilion i wneud cais am Drwydded Deledu am ddim?

Mae'r Drwydded Deledu am ddim i bobl 75 mlwydd oed a throsodd yn gymwys i'r rhai sy'n derbyn y naill ran neu'r llall o Gredyd Pensiwn – Credyd Gwarant neu Gredyd Cynilion (neu'r ddau).

© Os nad yw'r cwsmer yn derbyn Credyd Pensiwn ond eu bod yn derbyn budd-daliadau eraill, a allan nhw wneud cais am Drwydded Deledu am ddim o hyd?

Credyd Pensiwn yw'r unig fudd-dal a fydd yn galluogi cwsmeriaid dros 75 i wneud cais am drwydded am ddim.

*Mae cynghorwyr ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8:30am a 6:30pm. Mae cost galwadau ar gyfradd leol y cwsmer.

Cwestiynau cyffredin (parhad)

© Mae fy nghwsmer wedi colli'r amlen ddychwelyd a anfonwyd atynt. I ble mae angen anfon eu ffurflenni ar ôl eu cwblhau?

Gallant eu hanfon at **TV Licensing, PO Box 578, Darlington DL98 1AN**. Neu, os ydyn nhw'n gwneud cais am Drwydded Deledu am ddim, gallant fynd i **tvlicensing.co.uk/75ymgeisio** neu gael gair â chynghorydd drwy ffonio **0300 790 6042***.

© Os yw'r cwsmer eisiau prynu Trwydded Deledu du a gwyn, sut mae gwneud hynny?

Bydd angen iddyn nhw ffonio Trwyddedu Teledu ar **0808 196 8174**.

© Beth ddylai cwsmeriaid ei wneud os nad oes arnyn nhw angen Trwydded Deledu erbyn hyn?

Does ar gwsmeriaid ddim angen Trwydded Deledu os na fyddan nhw, neu unrhyw un arall sy'n byw yn y cyfeiriad yma: byth yn gwylio neu'n recordio rhaglenni teledu'n fyw ar unrhyw sianel; byth yn ffrydio rhaglenni'n fyw trwy wasanaeth teledu ar lein; a byth yn lawrlwytho neu'n gwylio rhaglenni'r BBC ar BBC iPlayer. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw ddyfais y maen nhw'n ei defnyddio. Os yw hyn yn wir, gallant roi gwybod i Drwyddedu Teledu trwy ffonio **0300 790 6042***.

© Pryd all fy nghwsmeriaid ddisgwyl derbyn eu Trwydded Deledu newydd?

Gall fod yn ychydig wythnosau cyn iddyn nhw dderbyn eu trwydded newydd. Os bydd unrhyw broblemau, bydd Trwyddedu Teledu yn cysylltu â nhw.

*Mae cynghorwyr ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8:30am a 6:30pm. Mae cost galwadau ar gyfradd leol y cwsmer.

Sut i gysylltu â ni

Diolch am ddarllen y canllaw yma i gyflew'r newidiadau i'r Drwydded Deledu i bobl dros 75. Os hoffech gael mwy o wybodaeth am ein gwaith cysylltiadau cymunedol gyda sefydliadau elusennol a grwpiau cymunedol, anfonwch e-bost atom yn:



Gallwch ein dilyn ar Twitter hefyd yn
@tvlicensingnews